

Clecs Camwy

Papur Bro Dyffryn Camwy

Ebrill 2012



Diwrnod Dolavon 1919 - 2012

Roedd yr 21ain o Ebrill yn ddiwrnod o ddathlu wrth i drigolion Dolavon nodi 93 o flynyddoedd ers i'r pentref gael ei sefydlu.

Ystyr yr enw Dolavon ydy 'dôl wrth drofa afon'. Ond os ewch chi i'r pentref heddiw wnewch chi ddim gweld golwg o'r afon, dim ond un o'r prif ffosydd yn llifo gydag olwynion dŵr yn troi. Felly pam fod pentref sydd 7km o'r afon wedi cael yr enw hwn?

Yn y flwyddyn 1896, dechreuodd William Henry Hughes wasanaeth post yn ei ffermdy a safai'n agos at Afon Camwy. Oherwydd ei leoliad rhoddwyd yr enw 'Dolafon' ar y fferm, ac mae ei olion yno o hyd. O'r fan hon byddai'r post yn cael ei ddosbarthu i fannau cyfagos, ac ymhen hir a hwyr dechreuodd y trigolion alw'r rhanbarth honno yn Dolavon. Yn dilyn llifogydd 1899, symudodd William Hughes i dir uwch yn Ebeneser, sy'n agosach at y Dolavon ry'n ni'n ei adnabod heddiw. Er i'r gwasanaeth post symud o'i leoliad gwreiddiol, parhawyd i'w alw yn Dolavon. Dyna lle bu'r post tan 1922, pan symudodd i'w leoliad presennol yng nghanol y pentref.



Roedd dyfodiad y rheilffordd i Ddolavon yn 1915 wedi denu pobl ac arian i'r pentref, a dechreuodd dyfu tua'r gorllewin. Fis Gorffennaf 1918 arwyddodd yr Arlywydd Hipolito Yrigoyen oedd yn datgan fod Dolavon yn bentref newydd swyddogol, ac ar 21 Ebrill 1919 cafodd y cyngor cyntaf ei sefydlu.

Adeiladwyd Capel Ebeneser, sy ar gyrion Dolavon, yn 1894 ar ffarm William Williams Drygist. Fe'i dinistriwyd yn llifogydd 1899, ond goroesodd y festri a chafodd ei drwsio i fod yn gapel. Mae gwaith adnewyddu'r capel ar droed. Gan nad oedd capel yn Nolavon, mynychai'r trigolion Capel Ebeneser. Yn 1920, penderfynwyd sefydlu capel yn Nolavon o'r enw Capel Carmel - fe'i henwyd gan lorwerth Williams - a phum mlynedd yn ddiweddarach prynwyd adeilad i addoli ynddo. Sied i gadw gwenith oedd yn perthyn i felin Bryn Gwyn oedd yr adeilad yn wreiddiol, ac yno mae Capel Carmel hyd heddiw.

Mae tua 4,000 yn byw yn Nolavon erbyn hyn, ac ar 21 Ebrill 2012 cynhaliwyd gwahanol weithgareddau i ddathlu'r pen blwydd, gan gynnwys gorymdaith drwy'r pentref, te gan aelodau'r Eglwys Fethodistaidd yng Nghlwb yr Henoed, dangos ffilm yn Ysgol William Morris, a dawns yn y gampfa.

Pen Blwydd Llawen Dolavon!



Cwrdd Diolchgarwch Bethel

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch yng Nghapel Bethel y Gaiman ar brynhawn Sul yr 22ain o Ebrill, ac roedd sedd fawr y capel wedi'i llenwi gyda bwydydd o bob lliw a llun yn rhoddion gan nifer o drigolion yr ardal.

Agorwyd y gwasanaeth mewn gair o groeso a gair o weddi gan Lois Dafydd, cyn i Angelica Evans gyhoeddi'r emyn cyntaf. Canwyd 'Diolch' yn Sbaeneg gan griw o ieuenctid y capel, gyda'r gynulleidfa'n ymuno â nhw i'w ganu'n Gymraeg. Darllenwyd yr emynau eraill gan Axa a Tirsia Gonzalez, Benito Jones, a Gonzalo Lizama, a Judith Jones oedd y gyfeilyddes.

Cafwyd tri darlleniad o'r Beibl, gydag Elliw Baines Roberts yn troi at Salm 107 ac Eysyllt Nest Roberts yn darllen hanesion Iesu a'r Wraig o Samaria ac Iesu Bara'r Bywyd yn efengyl Ioan. Daeth criw yr ôl-feithrin i'r sedd fawr i gyd-ddarllen y




gerdd 'Wedi Hau y Gwenith' gan Eddie Jones, sy'n disgrifio'r broses o gynhyrchu bara - o hau'r gwenith i ddechrau hyd at daenu menyn dros y bara gwyn yn barod i'w fwyta.

Canodd Billy Hughes unawd o'r emyn 'Pantfyfedwen', a darllenodd Gladys Thomas yr emyn 'Chwi bobl ddiolchgar' cyn i barti llinynnol ei berfformio dan arweiniad Sylvia Baldor. Ymunodd y gynulleidfa â'r parti llinynnol i ganu 'Cân Hosanna', cyn i Lois Dafydd rannu neges am ddiolchgarwch. Dywedodd mor bwysig yw hi ein bod ni'n cofio diolch am yr hyn sydd wedi cael ei roi i ni, a gan droi at y darlleniadau o'r Beibl cyfeiriodd at Iesu Grist fel y rhodd mwyaf mae Duw wedi ei roi - a phwysleisio pwysigrwydd diolch am hynny.

Casglodd Oscar Owen yr offrwm oedd er budd Y Feibl Gymdeithas, ac arweiniodd Gladys Thomas mewn gair o weddi. Yn dilyn y cyhoeddiadau gan Luned Gonzalez a chanu'r emyn 'Cyfrif y Bendithion', daeth y gwasanaeth i ben wrth i bawb gydadrodd y Fendith.

Rhannwyd y rhoddion hael o fwydydd, megis ffrwythau, llysiau, jamiau, pasta, bara, blawd, a siwgr i wahanol flychau, ac fe'u dosbarthwyd i rai o drigolion y Gaiman dros y diwrnodau canlynol.

Diolch i bawb am eu cyfraniadau gwerthfawr.



Holi Jane Ellen...



1. **Ble cawsoch chi eich geni?**
Yn Awstralia, ond symudodd y teulu yn ôl i Ddolavon pan oeddwn i'n ddwy flwydd a naw mis oed. Dwi'n byw yn y Gaiman nawr ers dros chwe blynedd.
2. **Pam ddychwelodd y teulu i Ddolavon?**
Doedd tywydd poeth Awstralia ddim yn gwneud lles i iechyd Tada, felly ar ôl 5 mlynedd fe brynodd fy rhieni ffarm arall yn Nolavon - yr un ffarm â lle mae Capel Ebeneser. Roedd y teulu yn wreiddiol o Ddolavon.
3. **Ble, sut, a pham ddysgoch chi Gymraeg?** *Cymraeg oedd iaith yr aelwyd.*
4. **Beth yw eich atgof cynharaf?**
Dwi ddim yn cofio unrhyw beth am Awstralia. Ond dwi'n cofio mynd i'r ysgol yn Nhir Halen, a'r athro oedd Amaya.
5. **Beth ydy eich hoff air Cymraeg?** *Dwi'n licio'r Gymraeg i gyd!*
6. **Beth ydych chi'n hoffi/ddim yn hoffi ei wneud?**
Dwi'n hoffi gwneud gwaith tŷ a gwneud jamiau o bob math - eirin gwlanog, bricyll, eirin, grawnwin. Does dim byd dwi ddim yn hoffi ei wneud.
7. **Beth oedd eich gwaith?**
Roeddwn i'n wraig tŷ ar y ffarm - yn godo'r gwartheg, dyfrio'r tatws, corddi, a llawer o bethau eraill. Roeddwn i'n licio gweithio ar y ffarm, a dwi'n gweld ei eisiau.
8. **Beth yw eich hoff fwyd?** *Dwi'n hoffi cawl o bob math!*
9. **Beth yw eich cas fwyd?** *Dim byd! A does dim yn gwneud drwg i mi.*
10. **Ydych chi erioed wedi bod i Gymru?** *Naddo. Dwi heb fod y tu allan i'r Dyffryn ers gadael Awstralia.*

Cymanfa Ganu Eglwys Dewi Sant

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu yn Eglwys Dewi Sant, Dolavon ar yr 21ain o Ebrill, wedi'i threfnu gan Gymdeithas Dewi Sant. Er gwaetha'r oerfel y tu allan, roedd yna groeso cynnes yn yr eglwys wrth i ddegau o bobl gyrraedd yr adeilad i sain David Pacheco ar y sacsoffon a Lis Jones ar y piano.

Roedd pob sedd yn llawn wrth i Soraya Griffiths arwain yr emynau agoriadol. Llanwyd Eglwys Dewi Sant â chanu brwd a swynol, gyda Gladys Thomas, Rebeca White, Edith Macdonald a Mari Pugh hefyd yn arwain mewn detholiad o emynau Cymraeg a



Sbaeneg. Darllenodd Rebeca White a Liliana Evans o'r Beibl cyn i Betty Sesse rannu neges ar heddych gyda'r gynulleidfa.

Daeth y gymanfa i'w therfyn gyda'r emyn Cwm Rhondda, a'r gynulleidfa yn gadael yr eglwys dan ganu'r pennill olaf - 'O, am aros yn Ei gariad ddyddiau f'oes.'

Bydd y gymanfa nesaf yng nghapel Glan Alaw, am 4 o'r gloch ar ddydd Sadwrn 19 Mai.

Oedfa Sul y Blodau

Cafodd pawb ddeuddydd o wyliau ddechrau mis Ebrill, a hynny gan fod penwythnos cyntaf y mis yn benwythnos y Pasg. Ond ar Sul y Blodau (y dydd Sul cyn y Pasg), cynhaliwyd oedfa arbennig yng Nghapel Bethel y Gaiman.



Cyrhaeddodd y gynulleidfa'r capel ar y cyntaf o Ebrill i gyfeiliant Hector Ariel ar yr allweddellau, cyn i Luned Gonzalez agor y gwasanaeth gyda gair o groeso i'r rhai oedd wedi cyrraedd o bell ac agos. Llanwyd yr adeilad â chanu brwd wrth i Gladys Thomas arwain yr emynau, oedd yn cynnwys 'Gwaith hyfryd iawn a melys', 'Pwy sy'n dwyn y brenin', a 'Bendithia ni'. Rhoddwyd cyfle hefyd i'r gynulleidfa ddewis un emyn, gyda Beryl Rowlands o Drelew yn cynnig 'Mae d'eisiau di bob awr'.



Arweiniodd Irma Williams a Gladys Thomas mewn gair o weddi, a chafwyd darlleniadau o'r Beibl gan gyfeillion o Gymru oedd yn ymweld â'r Gaiman. Roedd y naill ddarlleniad o Sechareia 9:9-10 a'r llall o Marc 11:1-11.

Rhannodd Elliw Baines Roberts air am y Pasg, gan esbonio'r hyn yw Sul y Blodau. Cyfeiriodd at y ffaith mai cofio taith olaf Iesu Grist i Jerwsalem ar gyfer y Pasg ry'n ni'n ei gofio ar y diwrnod hwn, a'i fod wedi anfon dau ddisgybl o'i flaen i gasglu ebol asyn iddo. Soniodd hefyd fod pobl wedi rhoi eu dillad a dail palmwydd ar y llawr o flaen Iesu wrth iddo orymdeithio i Jerwsalem ar gefn yr ebol asyn.

Yn dilyn y neges, perfformiodd un ymwelydd o Gymru unawd o'r emyn 'Pantfyfedwen', cyn i Oscar Owen a Gladys Thomas gynnal yr offrwm. Yna cafwyd y cyhoeddiadau a'r diolchiadau gan Luned Gonzalez.




Daeth y gwasanaeth i'w derfyn trwy gydadrodd y fendith, a gadawodd y gynulleidfa'r capel i gyfeiliant Hector Ariel unwaith eto. Ond roedd cyfle i sgwrsio'r tu allan i Gapel Bethel cyn troi am adref.

Pasg Hapus i bawb!

Dysgu Cymraeg Ar-lein

Gaby Cortiñas ydw i. Ces i fy ngeni yn Buenos Aires ond dw i'n byw yn yr Eidal ers 1999. Lydia yw enw fy ngwraig i (mae hi'n Americanaes). Mae dwy ferch gyda ni. Gaia sy'n chwe blwydd oed a Carys sy'n bedair blwydd oed.

Daeth fy nghyndeidiau o Galicia yng ngogledd Sbaen yn wreiddiol, felly does dim cysylltiadau â'r Wladfa gyda fi. Es i Borth Madryn unwaith pan o'n i'n ifanc, ond dw i ddim yn cofio unrhyw beth. Felly cyn i fi ddechrau dysgu'r iaith, do'n i ddim yn gwybod llawer am y Wladfa, dim ond y Torta Galesa!



Wnes i ddechrau dysgu Cymraeg ddwy flynedd yn ôl. Penderfynais ddysgu Cymraeg oherwydd rhai blynyddoedd yn ôl cefais y cyfle i ganu 'Benjamin Britten folk songs' yn Gymraeg (cantor opera ydw i) a gwnes i hoffi'r iaith yn fawr iawn.

Prynais i lyfr i ddysgu ond nid oedd yn gweithio'n dda iawn. Roedd hi'n ymddangos yn iaith anodd iawn ar y dechrau, ond wedyn dwy flynedd yn ôl ffeindiais i SaySomethingInWelsh.com, y cwrs Cymraeg ar-lein, ac fe ddaeth yr iaith yn fyw i mi. Dw i'n gallu lawrlwytho'r gwersi a'u chwarae nhw pan dw i eisiau. Mae pobl yn y fforwm ar-lein yn gyfeillgar iawn ac yn angerddol am y Gymraeg. Maen nhw'n fy helpu gyda chwestiynau ac yn gymorth i mi.

Dw i dim ond wedi bod yng Nghymru ddwywaith, ond dw i'n defnyddio Skype i siarad gyda dysgwyr eraill o gwmpas y byd, ac yn ymarfer yr iaith Gymraeg bob wythnos. Dy'n ni'n cyfarfod i siarad trwy Skype bob prynhawn dydd Sul. Fel arfer rwy'n siarad â phobl o Gymru, Lloegr, yr UDA, yr Almaen a'r Ffindir.

Ers y llynedd, dwi wedi bod yn helpu SSiW (Say Something In Welsh) i greu'r fersiwn Sbaeneg-Cymraeg o'r cwrs. Felly ar hyn o bryd mae llawer o bobl yn y Wladfa yn dysgu Cymraeg gyda SSiW ar-lein. Dw i'n gobeithio bydd parhau i gyfieithu'r cwrs yn gallu helpu mwy o bobl i ddod yn siaradwyr Cymraeg.

Gaby Cortiñas



www.saysomethinginwelsh.com - dewiswch yr opsiwn Sbaeneg sydd ar frig y dudalen ar yr ochr dde ar gyfer y cwrs cyfrwng Sbaeneg.



Noson Raffl yn Breuddwyd

Roed bwrlwm yn Breuddwyd y Gaiman ar nos Lun y 9fed o Ebrill wrth i nifer o drigolion yr ardal ac ymwelwyr fwynhau noson o sgwrsio, canu, bwyta, a chymdeithasu hwyllog.

Atyniad mawr y noson oedd tynnu'r raffl! Bu pobl yn prynu a gwerthu tocynnau raffl ers rhai wythnosau er mwyn codi digon o arian i brynu peiriant golchi dillad newydd ar gyfer Tŷ Camwy. Ac roedd gwobrau arbennig ar gael i'r sawl oedd wedi prynu'r tocynnau lwcus. Rhoddwyd croeso arbennig i Elin Rhys, oedd yn ymweld â Phatagonia am y tro cyntaf ers iddi fod yma'n athrawes yn 2007, ac i Lois Dafydd sy'n dychwelyd i weithio gyda Menter Patagonia yn Nyffryn Camwy am ail flwyddyn. A chafodd y ddwy'r fraint o dynnu'r tocynnau lwcus o'r bag papur.

Trwy gyd-ddigwyddiad llwyr, tynnodd Lois Dafydd ei henw ei hun o'r het i ennill teisen goffi a chnau Ffrengig o siop 'Blasus'! Ymhlith yr enillwyr eraill oedd Lisa Hughes (sychwr gwallt), Elder Rees (gwerth \$200 o betrol), Yolanda Palumbo (te i ddau yn Nhŷ Gwyn), Mario Velasco (basged o ddanteithion o Blas-y-Coed), Victor Soto (pryd i ddau yn Gwalia Lân), a Gladys Thomas (\$300 i'w gwario yn siop 'El Pato'). Llongyfarchiadau i bawb!

Braf yw datgan fod cyfanswm y raffl wedi cyrraedd y nod, a bod peiriant golchi newydd sbon a dillad glân yn Nhŷ Camwy erbyn hyn! Diolch i bawb am eu cefnogaeth.



'Llais yr Andes / La Voz de los Andes'



Mae Llinos Griffin wedi cynhyrchu dwy ffilm fer fydd yn cael eu dangos yng Ngŵyl Ffilmiau Bae Caerfyrddin yn Llanelli ar 11 Mai 2012. Bu Llinos yn gweithio gyda Menter Patagonia yn Nyffryn Camwy yn 2010. Mae un o'r ffilmiau, 'Llais yr Andes/La Voz de los Andes' yn ffilm ddogfen fer ddwyieithog Cymraeg a Sbaeneg am gymuned Gymraeg Trevelin a'r gwaith caled mae'r trigolion yn ei wneud i achub yr iaith a'r diwylliant yno.

Yn 'La Voz de los Andes' gan Llinos Griffin ac Eluned Owena Evans (athrawes Gymraeg yr Andes yn 2010), mae cyfweiliadau diddorol gyda rhai o drigolion Trevelin - ambell un gafodd eu magu yn siarad Cymraeg yn hel atgofion am eu plentyndod yn y cymunedau Cymraeg, ac eraill yn esbonio pam eu bod wedi dysgu'r iaith. Mae'r ffilm hefyd yn dangos rhai o olygfeydd godidog yr Andes, ac yn ymweld â'r dosbarthiadau Cymraeg sy'n cael eu cynnal yno. Mae is-deitlau Sbaeneg trwy gydol y ffilm.

Os hoffech wyllo 'Llais yr Andes/La Voz de los Andes', ewch i wefan YouTube a theipio 'Llais yr Andes' yn y blwch chwilio.

Cornel y Dysgwyr

Rincon de aprenda Galés

Y Tywydd / El Tiempo

Sut mae'r tywydd heddiw?

Como esta la clima hoy?

Mae hi'n...

Está...

... braf.

...linda.

... bwrw glaw.

...lloviendo.

... gymyglog.

...nublado

... oer.

Hace frío.

... boeth.

Hace calor.

... wyntog.

Hace viento.

... heulog.

Hace sol.

... niwlog.

Hay niebla.

... stormus.

Hay tormenta.

... bwrw eira.

Nieva.



**Diolch yn fawr i
gyfranwyr a noddwyr y
rhifyn hwn...**



PLAS HEDD

Complejo Turístico

**Fflatiau moethus
a heddychlon
ger môr Madryn.**

(02965)471357

Stryd F.L. Beltrán 1644/1626

Plas-y-Coed

**Tŷ Te hynaf
Gaiman.**

**Croeso Cymreig a
the traddodiadol ers 1944.**

Heol Michael D. Jones 123, Gaiman.




TeithiauTango

Dewch i weld y Wladfa



www.teithiautango.co.uk

**Cwmni teithio o Aberystwyth sy'n
arbenigo yn y Wladfa.**



**Nwyddau ar
gyfer ffermwyr
yn Nhrelew**

camposur

SERVICIOS AGROPECUARIOS
CHILE 32 Tel:(02965)436259-Tw.

Gwalia Lân

**Bwyty safonol
gydag awyrgylch
Gymreig a chroeso
cynnes.**



**Cornel Heol Eugenio Tello
a Heol Michael D. Jones, Gaiman.**

Lasagne Pwmpen

- rysáit tymhorol ar gyfer yr hydref oer

Cynhwysion: 1kg pwmpen heb groen na hadau, ac wedi'i thorri
90ml olew
nytmeg
pupur du
250g caws ricotta
250g tafelli o basta
150ml llaeth
25g caws wedi gratio

Ar gyfer y 55g menynd
saws: 55g blawd plaen
350ml llaeth



Cynheswch yr olew mewn sosban fawr drwm. Ychwanegwch y bwmpen a'i choginio gyda'r caead ar y sosban, gan ei throï bob hyn a hyn nes bod y bwmpen yn dyner - hyd at awr. Rhowch nytmeg, pupur du, a phinsiad o halen yn flas.

Ychwanegwch y caws ricotta tra bod y gymysgedd dal ar y gwres. Cymysgwch yn dda, ac yna tynnwch y sosban o'r gwres. Rhowch y caead arno a'i adael i sefyll.

I wneud y saws, toddwch y menynd mewn sosban fach heb adael iddo droi'n frown. Ychwanegwch y blawd ato ychydig ar y tro, gan droi'r gymysgedd drwy'r amser i sicrhau nad oes lymphiau. Wedyn parhewch i'w goginio am 5 munud. Ychwanegwch y 350ml o laeth ato ychydig ar y tro, gan droi'r gymysgedd drwy'r amser er mwyn gwneud saws trwchus. Rhowch flas iddo gyda halen a phupur.

Rhowch haenen o basta ar waelod bowlen fawr sy'n gallu mynd i'r popty, ac ychwanegwch dreian o'r gymysgedd gyntaf (y bwmpen) iddi. Gwnewch hyn ddwy waith eto gyda'r pasta a gweddill cymysgedd y bwmpen. Dylai fod haenen o basta ar y top.


Arllwyswch y 150ml o laeth dros y cyfan er mwyn iddo lifo drwy bob haenen o basta. Pobwch yn y popty ar farc nwy 4 am 10 munud, cyn taenu'r saws drosto. Pobwch am 15-20 munud arall.

Tynnwch o'r popty ac arllwys y caws wedi gratio dros y cyfan a'i roi nôl yn y popty am ychydig funudau nes bod y caws wedi toddi.

Bwytwch yn boeth gyda llysiau.

Gallwch ychwanegu haenau o gig mân (*carne picada*) at y lasagne hefyd!

Croesair Idiomau a Dywediadau



AR DRAWS

3. YN DDU FEL BOL _____ (4)
4. CAS GŴR NA CHÂR Y _____ A'I MACO (4)
7. _____ O'R UNLLIW A HEDANT I'R UNLLE (4)
8. TEG EDRYCH TUAG _____ (5)
10. MAE WEDI _____ MUL (5)
11. TYNNU DŴR I'R _____ (6)
12. GWNEUD EICH GORAU _____ (4)
13. _____ Y GWÊL Y FRÂN EI CHYW (4)
14. _____ MOCH (5)
15. DROS EI BEN A'I GLUSTIAU MEWN _____ (6)
19. TARO'R _____ AR EI PHEN (6)
22. GWNEUD _____ A MYNYDD O RYWBETH (3)
23. Y DDRAIG GOCH DDYRY _____ (6)
24. GWENU FEL _____ (4)
25. _____ COES RHYWUN (5)
26. TYNNU NYTH _____ AR FY MHEN (5)

I LAWR

1. _____ BACH MIHANGEL (3)
2. RHWNG Y CŴN A'R _____ (5)
3. CADW LLYGAD _____ (6)
4. CYN IACHED Â _____ (6)
5. MAE'N BWRW HEN _____ A FFYN (6)
6. _____ OEDD YR HAUL (6)
9. Y CYNTAF I'R _____ GAIFF FALU (5)
13. DIWEDD Y GÂN YW'R _____ (7)
15. NID _____ LLE GELLIR GWELL (2)
16. RHOI'R FFIDL YN _____ (1, 2)

17. NID AUR YW POPETH _____ (5)
18. GORAU _____, _____ ODDI CARTREF (5)
19. MAE'R _____ YN MYND TRWY'R SIOP (3)
20. MAE _____, _____ TROI'N CHWERW (6,1)
21. YN WÊN O _____ I _____ (5)
23. _____ ARF, ARF DYSG (5)
27. GYDA'I _____ YN EI DDWRN (4)

Cofiwch fod 'ch', 'dd', 'ff', 'ng', 'll', 'rh' 'th' yn un llythyren!

Geirfa'r Mis

trigolion	<i>habitantes</i>
ystyr	<i>significado</i>
dôl	<i>prado</i>
cyfagos	<i>cerca</i>
llifogydd	<i>inundaciones</i>
dyfodiad	<i>llegada</i>
datgan	<i>declarar</i>
bywiol	<i>vivo/viviente</i>
hau gwenith	<i>sembrar trigo</i>
deuddydd	<i>dos días</i>
lawrlwytho	<i>descargar</i>
dyfrio	<i>regar</i>

Vocabulario del Mes

lwmp/lympiau	<i>grumo/s</i>
treian	<i>tercera</i>
haenen	<i>capa</i>
godro	<i>ordeñar</i>
hedyn/hadau	<i>semilla/s</i>
bricyll	<i>damascos</i>
cynhyrchu	<i>producir</i>
dosbarthu	<i>distribuir</i>
cyndeidiau	<i>antepasados</i>
cantor opera	<i>cantante de la ópera</i>
cyd-ddigwyddiad	<i>coincidencia</i>
corddi	<i>batir la crema para hacer manteca</i>

Cornel y Plant

**Llongyfarchiadau i
Yael White Ferrer ar
ennill gwobr am liwio
llun Dewi Sant!**

Lliwiwch Jac y Jwc

Anfonwch eich lluniau at Lois
Dafydd erbyn 24 Mai 2012 am gyfle
i ennill gwobr!

Diolch i bawb am gystadlu



Chwilair y Pasg

j	ff	y	a	s	y	n	s	d	d	b	n	g	lesu
e	r	m	t	g	dd	w	a	b	f	s	l	m	Croes
r	e	ch	g	i	t	e	i	p	j	i	g	o	Pasg
w	y	l	y	l	e	b	s	c	r	o	e	s	Jerwsalem
s	w	c	f	ng	s	c	e	l	p	c	h	ff	Atgyfodi
a	d	m	o	h	p	d	n	ph	u	l	b	p	Asyn
l	t	r	d	ch	a	t	f	d	th	e	g	d	Ŵy
e	s	a	i	e	s	u	c	r	b	d	th	y	Siocled
m	d	c	h	f	g	o	b	m	s	h	i	m	

Os hoffech chi ysgrifennu neu gyfrannu at 'Clecs Camwy', neu ei noddi,
cysylltwch â Lois Dafydd: loisdafydd@menterpatagonia.org 2804 386 198